

Newyddlen Menter y Tŵr



Mawrth 2025

Hanes y logo.

Sgwrs gyda Lois Llewelyn, Cwmni Llewes. Dylunydd logo Y Tŵr

Mae ambell i unigolyn wedi mynd allan o'u ffordd i gefnogi Menter Y Tŵr, gan roi amser ac adnoddau yn wirfoddol. Dyma yr hanes y tu ol i ddyluniad y logo. Rydym yn hynod ddiolchgar i Lois, cwmni Llewes, Pwllheli sydd wedi rhoi ei hamser ac arbenigedd i greu pecyn deniadol a proffesiynol gyda chanllawiau ar gyfer pob sefyllfa. Mae hydnoed dyluniad yn barodar gyfer y bwydleni a

“ Dwi wedi byw ym Mhwillheli ar hyd fy oes, ac roeddwn yn gwybod yn syth bod yn rhaid cynnwys Y Tŵr bach sydd uwchben y fynedfa. Mae'n rhan mor bwysig o'r adeilad! Dewisom y lliwiau glas tywyll ac aur i gynrychioli'r môr a'r tywod, gan adlewyrchu treftadaeth arfordirol Pwllheli.

Ychydig fisoedd yn ddiweddarach yn ystod un o'r dyddiau agored, daethom o hyd i lestri gyda'r hen logo arnynt. Heb yn wybod i mi, roedd yn debyg iawn i fy nyluniad – cysylltiad hyfryd â'r gorffennol a wnaeth y prosiect hyd yn oed yn fwy arbennig!”



ffedogau! Roedd hi'n anrhydedd derbyn gwahoddiad i ddylunio logo Y Tŵr” meddai Lois.



Y Tŵr bach uwchben y fynedfa.



Y Llestri gyda'r hen logo arnynt

Fforwm Busnes Pwllheli

Grwp i gefnogi a hyrwyddo twf busnes y dref a'r ardal ydi Fforwm Busnes Pwllheli. Mae'n annog rhwydweithio rhwng busnesau, sefydliadau fel Menter Y Tŵr, y Cyngor Tref a Chyngor Gwynedd. Cynhaliwyd cyfarfod difyr yn Y Venu Pwllheli nos Iau 13 Mawrth i ddatblygu'r cynlluniau “Creu Lleoedd” ac “Ardal Ni” gan Gyngor Gwynedd.



Dywedodd Ffiona Adams, dirprwy Faeres ac un o sefydlwyr y Fforwm “Bydd cael cynllun datblygu yn ei le yn ein galluogi i wneud ceisiadau ariannol ar gyfer y dref. Er yr holl heriau sydd yn wynebu busnesau a sefydliadau ym Mhwillheli fel ym mhob tref arall, mae yna gyfleoedd ar gael ac rydan ni eisiau sicrhau fod Pwllheli yn cael pob cyfle. Roedd hi'n bleser bod yng nghwmni yr unigolion gweithgar hynny sydd eisiau gweld Pwllheli yn datblygu er budd pobol y dref.” Dilynwch Fforwm Busnes Pwllheli ar y cyfryngau cymdeithasol neu ebostiwch FforwmBusnes Pwllheli@gmail.com



Yn y newyddlen hon

Diweddariad ar yr adeilad.

Rhannwch straeon/ atgofion

Raffl Y Tŵr ar daith.

Diweddariad am y gwaith ar yr adeilad

Wedi dau fis o ddymchwel a chwalu, mae gwaith ailwneud a trwsio wedi cychwyn ers diwedd mis Chwefror. Mae'r simneau wedi eu ail bwyntio, gwaith brics wedi ei lanhau. Ailddefnyddwyd y cynn oddiar yr hen simdde yn y cefn ar gyfer y simneau ar y prif do. Mae gwaith adnewyddu'r ffenestri dormer ar flaen yr adeilad bellach wedi ei gwblhau. Mae'r llechi wedi cyrraedd ac mae'r haen uchaf o sgaffaldiau bellach wedi ei thynnu. Mae'r gwaith mawr o dynnu'r hen lechi ac ail doi ar waith. Mae trwsio'r to yn ryddhad yn dilyn blynyddoedd o ddwr glaw yn difrodi'r adeilad oherwydd cyflwr y to. Ariennir y gwaith hwn drwy gronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Rydym yn hynod ddiolchgar am bob cefnogaeth ariannol tuag at Fenter Y Tŵr.



Gwaith ailbwyntio wedi'i gwblhau



Ffenestri dormer wedi'u adnewyddu



Mae'r simneiau wedi eu capio



Adnewyddu ffenestri dormer ar flaen yr adeilad a'r simneau gorffenedig.



Llechi'n barod i'w gosod

Ffansi ennill mwg a mat diod Y Tŵr?

Gyrrwch eich atgofion o'r Twr dros y blynyddoedd ac unrhyw luniau o ddigwyddiadau yn Y Twr atom am gyfle i ennill mwg a mat diod a chael eich stori a'ch llun ar y wefan! Ebstiwch ytwrpwlheli@gmail.com



Raffl ar daith!

Diolch i Caffi Largo a Salon gwallt Karalyns am gynnal taith raffl ar y cyd dros y gaeaf. Mae'r raffl bellach wedi ei thynnu. Diolch i bawb gyfranodd ac a brynodd docyn. Diolch o galon i Karen Rees Roberts am drefnu y raffl ac am ei chefnogaeth bob amser i'r dref. Rydym yn awyddus i gychwyn taith raffl newydd ar gyfer y gwanwyn. Rydym angen rhoddion, ac hefyd lleoliad i werthu'r tocynnau raffl am gyfnod. Fel arwydd o ddiolch am edrych ar ol y raffl ac am eich cefnogaeth byddwn yn cynnwys llun i hyrwyddo'ch busnes yn newyddlen Menter Y Tŵr. Cysylltwch a ni i drafod! ebstiwch ytwrpwlheli@gmail.com



Karen Rees Roberts, Karalyns

Gwirfoddoli a codi arian

Er bod yr adeilad, yn amlwg wedi cau i'r cyhoedd am y tro, mae digonedd o gyfleoedd i wifroddoli gyda Menter Y Tŵr. Cyda'r costau uchel apeliwn ar unrhyw un i drefnu a cynnal digwyddiad sydd o ddiddordeb i chi. Braff fyddai cael gig neu gyngerdd, gwledd, her, noson o adloniant neu ddigwyddiad anarferol neu sefydlu Pel Fonws sydd yn wahanol i'r arfer er mwyn codi arian at fenter Y Tŵr tra'n cymdeithasu. Mae cynyddu gweithgaredd cymunedol yn un o amcanion y fenter, a byddai'n wych gallu ychwanegu at galendar digwyddiadau Pen Llyn. Gallwn eich cynorthwyo i hyrwyddo y digwyddiad. Cysylltwch á ni i drafod ymhellach drwy yrru neges i ytwrpwlheli@gmail.com neu drwy ein cyfryngau cymdeithasol.

Criw Y Twr x